Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 30 Mehefin 2016
Ein cyf: HVT/2576/fgb


Annwyl Nick

**YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS: MATERION EHANGACH SY'N DEILLIO O ADOLYGIAD LLYWODRAETHU BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (BIPBC)**

Mae'r Dirprwy Glerc Pwyllgor wedi gofyn am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor blaenorol yn deillio o'r ymchwiliad uchod. Nodaf fod gohebiaeth Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys ymatebion i argymhellion penodol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Fy marn gyffredinol yw bod yr ymatebion i'r argymhellion gan yr holl bartïon perthnasol yn rhesymol ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod camau gweithredu naill ai'n mynd rhagddynt neu wedi'u cynllunio yn y rhan fwyaf o'r meysydd lle cododd y Pwyllgor bryderon. Nodaf fod tri argymhelliad nad ydynt wedi'u derbyn a bod pedwar arall sydd wedi'u derbyn yn rhannol. Wrth archwilio'r ymatebion i'r argymhellion penodol hyn, ymddengys fod y rhesymau dros beidio â derbyn neu dderbyn yn rhannol yn rhesymol ac wedi'u hystyried yn briodol, er ei fod wrth gwrs yn fater i'r Pwyllgor os yw'n dymuno pwyso ymhellach ar Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ran y materion penodol a gwmpesir yn yr argymhellion hynny.

Argymhellodd adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol y dylai'r Pwyllgor newydd wneud gwaith dilynol yn rheolaidd ar y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a godwyd gan yr ymchwiliad uchod. Er fy mod o'r farn bod yr ymateb cyffredinol i'r argymhellion yn rhesymol, ceir rhai meysydd penodol lle efallai y bydd y Pwyllgor am gael y diweddaraf ynghylch cynnydd:

- i ba raddau y mae adroddiadau blynyddol cyrff y GIG, a datganiadau llywodraethu blynyddol yn datgelu manylion am bresenoldeb aelodau'r bwrdd yng nghyfarfodydd y bwrdd (a'r pwyllgor) [Argymhelliad 2];

- gwaith gydag Academi Cymru i adolygu ac adfywio'r rhaglen sefydlu i aelodau annibynnol y bwrdd [Argymhelliad 3];

- yr adolygiad o'r canllawiau Gweithio i Wella [Argymhelliad 4];
- gwelliannau o ran y gallu i chwilio ac olrhain yng nghronfa ddata CABS ar draws y llywodraeth [Argymhelliad 6];
- cynlluniau Llywodraeth newydd Cymru ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd, yn benodol mewn perthynas ag annibyniaeth weledol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru [Argymhelliad 23];
- cynlluniau Llywodraeth newydd Cymru i ystyried ystod y cyfrifoldebau sydd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru [Argymhelliad 24];
- y sefyllfa ar draws cyrff y GIG o ran cymeradwyo eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2016-17 [Argymhelliad 26].

Gwnaeth adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor blaenorol hefyd argymhell y dylai'r Pwyllgor newydd fonitro'r cynnydd a wnaed gan BIPBC yn ystod y cyfnod o fesurau arbennig, gan gynnwys gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Meddyg Teulu, ac awgrymwyd cymryd tystiolaeth lafar bellach gan y Bwrdd Iechyd yng ngwanwyn 2017. Ar hyn o bryd, rwy'n bwriadu gwneud gwaith ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ddechrau 2017 a fydd yn ceisio adolygu'r cynnydd y mae BIPBC yn ei wneud yn erbyn yr argymhellion y gwnaed gennym yn flaenorol i gryfhau trefniadau llywodraethu yn y Bwrdd Iechyd. Rwy'n disgwyl y bydd y Pwyllgor yn dymuno cael briffiad gennyf ar y gwaith hwn pan fydd yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2017, mae'n bosibl y bydd am gael tystiolaeth bellach gan dystion. Felly gallai'r diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar y meysydd a nodwyd uchod (ac agweddau eraill ar ei hymateb i argymhellion y Pwyllgor) gael ei gymryd fel rhan o'r ymarfer casglu tystiolaeth. Byddwn hefyd mewn sefyllfa i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau o waith archwilio lleol rwyf yn ei wneud ledled Cymru ar wasanaethau y Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu. Rwyf o'r farn y byddai'n werth i'r Pwyllgor drafod unrhyw gynlluniau ar gyfer craffu pellach ar yr holl feysydd hyn gyda'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon newydd.

Gan gyfeirio at ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad 3, efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol y byddaf, fel rhan o'm gwaith asesu strwythuredig yng nghyrff y GIG eleni, yn cynnal rhywfaint o asesiadau cymharol ar fframweithiau sicrwydd bwrdd a hefyd y dulliau sydd yn eu lle i fonitro cyflawni cynlluniau tymor canolig. Mae'r gwaith hwn yn rhoi dull imi nodi a rhannu unrhyw arfer da a nodwyd mewn perthynas â'r agweddau hyn ar lywodraethu. Mewn perthynas ag Argymhelliad 27 yn adroddiad y Pwyllgor, efallai y bydd aelodau wedi nodi o'r memorandwm sy'n rhoi'r diweddaraf am fy nghynllun gwaith fy mod yn bwriadu cyhoeddi fy adroddiad ar weithredu Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 erbyn diwedd mis Mawrth 2017.

Hyderaf fod yr uchod yn ddefnyddiol.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**